Cymdeithas Hanes Llanrwst ar Cylch

Newyddlen y Gymdeithas *Rhif 9 Ionawr 2008*

BLWYDDYN NEWYDD DDA!

Cyfarfodydd Diweddar

Gorffennaf: Ar ddydd Sul, Gorffennaf 8fed, aeth deg o'r aelodau ar ymweliad â chastell Dolwyddelan. Roedd yn brynhawn braf, ac ar ôl cyrraedd pen y castell, mwynhaodd pawb gerddoriaeth Gymraeg ar y bagpib gan Mr Gregory Yna fe gafodd yr aelodau eu tywys o gwmpas eglwys Sant Gwyddelwern gan un o'r plwyfolion. I gloi'r ymweliad, ymwelwyd â gorsaf reilffordd Dolwyddelan sydd wedi ei harddu gan y bobl leol gyda borderi, basgedi crog a thybiau blodau.

Medi: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor ar Fedi 5ed. Yn absenoldeb anorfod y gŵr gwadd, Mr Vivian Williams, cafwyd sgwrs hynod ddiddorol, gyda chymorth sleidiau, gan Mr David Jones, gynt o Lanrwst, a mab y diweddar Mr a Mrs Eddie Jones. Ei destun oedd Hanes Cysylltiadau Cymru gyda'r Radio gan sôn am y rhan chwaraewyd gan Gymry fel David Hughes a William Prys a lleoedd fel Waunfawr yn natblygiad cynnar radio.

Hydref: Mr Robin Wolley sy'n Bensaer Cadwraeth oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Hydref. Cafodd ei apwyntio i fod yn bensaer yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy a'i waith yw edrych ar ôl pensaernïaeth yr adeilad a goruchwylio gwaith adnewyddu a wneir arno. Ef hefyd ofalodd am waith cadwraeth wnaed ar do Eglwys Sant Grwst tua 6 mlynedd yn ôl a bu'n gweithio ar yr elusendai ac Eglwys Llanddoged. Bu'n gweithio ar hen adeiladau o bob math, gan gynnwys porth eglwys Dolwyddelan pan falwyd ef gan lori.

Tachwedd: Orig Williams oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Tachwedd ac yn ôl ei arfer roedd yn ddifyr iawn. Cawsom hanes ei blentyndod yn Ysbyty Ifan ac yna ei hynt a'i helynt ar draws y byd yn bocsio, reslo, chwarae pêl-droed ac mewn syrcas, i grybwyll dim ond rhai pethau difyr y soniodd amdanynt yn ei ffordd ddihafal ei hun.

Rhagfyr: Serch tywydd difrifol, daeth nifer o'r aelodau i gyfarfod mis Rhagfyr i wrando ar Mr Hywel Jones yn sôn am y Rhyfel Cartref yng ngogledd Cymru ac yn arbennig yn Sir Ddinbych. Canolbwynt y ddarlith oedd y gwarchae ar Gastell Dinbych a'r brwydro gwaedlyd fu yng nghyffiniau'r dref. Mwynhawyd mins pei a sgwrs ar derfyn y ddarlith.

Cyfarfodydd i ddod

Cwefror: Chwedlau Dyffryn Conwy Mr James Berry
Mawrth: Y Rhufeinaid yn Nyffryn Conwy Mr Arthur Pierce
Erill: CCB gyda noson o adloniant i ddilyn
Mai: Comisiwn Coedwigaeth Gwydir Mr Gareth Jones

- ***Gan fod ein blwyddyn ariannol o fis Medi i Awst, mae tâl aelodaeth llynedd yn ddilys hyd at fis Medi 2008 ac yn cynnwys mynediad am ddim i'r Elusendai am gyfnod yr aelodaeth.***

Mae'r Gymdeithas Hanes wedi rhoi rhodd i'r Elusendai i dalu am y gost.

Gwefan Llanrwst

Mae Gwefan Llanrwst ar gael yn awr ac yn cael ei diweddaru ac ychwanegau ati yn rheolaidd. Mae'r Gymdeithas wedi cyfrannu at y costau ac wedi talu tanysgrifiad i hysbysebu cyfarfodydd ein Cymdeithas a'n cyhoeddiadau. Rydym hefyd yn rhoi ein newyddlen ar-lein. Y cyfeiriad ar y we yw: **www.llanrwst.net**

Llyfr Heol Scotland

Mae bron bob copi o Lyfr Heol Scotland wedi ei werthu. Ers iddo gael ei lansio ym Mehefin rydym wedi rhyfeddu at y galw amdano, nid yn unig oddi wrth bobl leol ond o leodd pell fel Awstralia a Chanada! Yn dilyn y llwyddiant yma, cynyddodd y galw am Lyfr Heol Watling a bu'n rhaid ei ail-argraffu ac mae'n gwerthu'n dda. Rhaid diolch i Kelvin am ei waith yn gwerthu'r llyfrau yn ei siop.

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth

Mae Mr Ken Bowden wedi trefnu cystadleuaeth ffotograffiaeth i aelodau am £1 y cais. Rhaid i'r pwnc fod o natur hanesyddol, yn adeilad, rhan o adeilad, arwydd ayb yn nhref Llanrwst Rhaid i bob ymgais fod i law erbyn cyfarfod mis Mawrth fan bellaf. Byddant yn cael eu beirniadu gan Mr Richard Hayward a chyhoeddir enwau enillwyr yn y CCB.

Baner y Gymdeithas

Rydym fel cymdeithas yn cynnal arddangosfeydd ffotograffiaeth o bryd i'w gilydd ac yn mynychu gwahanol ddigwyddiadau, felly teimlwyd y byddai cael baner ddwyieithog i'w harddangos ar yr adegau hyn yn syniad da. Mae wedi ei phrynu a bydd i'w gweld yn y cyfarfod nesaf.

Llanast Llanrwst

Fel ein cyfraniad i weithgareddau 'Llanast Llanrwst' gosododd Pat Rowley a Pat Williams arddangosfa o luniau hen siopau a busnesau yn ffenest siop Llyfrau Berry. Rydym yn ddiolchgar i James Berry am roi'r lle i ni.

Grŵp Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy

Fel ein cynrychiolwyr ar bwyllgor gwefan Llanrwst, bu Pat Rowley a Pat Williams mewn diwrnod agored wedi ei drefnu gan GGGC yn Neuadd y Dref, Llandudno, gan fod y wefan wedi ei hariannu'n rhannol gan y cynllun grantiau bychain.

Gweithredu

- Mae mynwent yr hen Gapel Sentars (Tabernacl) yn Heol Scotland wedi ei chlirio a'r wybodaeth ar y cerrig beddau wedi ei gofnodi.
- Anfonwyd llythyr i Adran Briffyrdd y Sir ynglŷn â'r bont a'r difrod achoswyd iddi'n ddiweddar gan lori fawr.